

Cylchlythyr Byrddau Diogelu Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro

Gwanwyn 2019

Hyfforddiant Diogelu Rhanbarthol

Ymchwil Deddf Galluedd Meddwl gan Warchodwr y Cyhoedd

Lansiad Strategaeth Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Uned Eithafiaeth a Gwrth-derfysgaeth Cymru – WECTU

Gweithdrefnau Diogelu Cymru – Diweddariad

Canllaw Ymarferwyr – Egwyddorion Cyfreithiol Sylfaenol

Diwygiad y Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol

Ymgyrch VAWDASV: Nid cariad yw hyn: Rheoli yw hyn

Penodi Cadeirydd ac Aelodau'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol

Lansio Strategaeth Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Ar 3 Ebrill 2019, lansiwyd Strategaeth dair blynedd y Comisiynydd. Mae'r Strategaeth yn nodi tair prif flaenoriaeth y Comisiynydd a fydd yn helpu i drawsnewid profiad tyfu'n hŷn yng Nghymru:

- Atal anffafrio oherwydd oedran
- Atal cam-drin pobl hŷn.
- Galluogi pawb i heneiddio'n dda.

Mae'r Comisiynydd hefyd wedi cyhoeddi rhaglen waith sy'n nodi'r ystod gwaith eang a gaiff ei gwneud er mwyn gwireddu'r tair blaenoriaeth uchod. Gellir gweld y Strategaeth a'r rhaglen waith trwy ddilyn y dolenni canlynol:

Cymraeg: <http://www.olderpeoplewales.com/wl/publications/strategy.aspx>

Saesneg: <http://www.olderpeoplewales.com/en/publications/strategy.aspx>

Hyfforddiant Diogelu Rhanbarthol

Bu i Fwrdd Diogelu Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro gynnal Diwrnod Hyfforddiant Diogelu Aml-Asiantaeth ar 20 Mawrth 2019. Roedd yr hyfforddiant yn trafod Linellau Cyffuriau a Prevent a daeth tua chant o staff o nifer o asiantaethau.

Roedd yr adborth a gawsom yn dra chadarnhaol a dywedodd 98% o'r rhai a ddaeth eu bod wedi cael yr hyfforddiant naill ai'n andros o effeithiol neu'n gwbl effeithiol.

Diolch enfawr i'r heddlu am gyflwyno hyfforddiant amlasiantaeth mor ddiddorol, gwerthfawr a phoblogaidd.

Ymchwil Deddf Galluedd Meddwl Gwarchodwr y Cyhoedd

Rhoddodd Charlotte Gandhu ac Andrew Parker gyflwyniad i'r Bwrdd Diogelu Oedolion ar 2 Ebrill 2019 ar ymchwil ddiweddar ar destun dealltwriaeth gweithwyr proffesiynol o Swyddfa Gwarchodwr y Cyhoedd. Bu niferoedd derbyn Pŵer Atwrnai Parhaus yn isel drwy lawer o Gymru ac adnabuwyd bod angen codi ymwybyddiaeth o nodweddion Swyddfa Gwarchodwr y Cyhoedd a'r gofrestr chwiliadwy.

Bydd ymgyrch i hyrwyddo cymryd Pŵer Atwrnai Parhaus yn yr hydref yn 2019 er mwyn sicrhau bod gweithwyr proffesiynol yn gwybod mwy am Swyddfa Gwarchodwr y Cyhoedd.

Dilynwch y dolenni canlynol i ddysgu mwy:

<https://www.gov.uk/government/organisations/office-of-the-public-guardian>
/ <https://www.gov.uk/find-someones-attorney-or-deputy>

Uned Eithafiaeth a Gwrth-derfysgaeth Cymru– WECTU

Ar ran y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol, cyflwynodd swyddogion y WECTU sesiynau hyfforddi Prevent i 100 aelod staff amlasiantaeth.

Trafododd yr hyfforddiant agenda cadw pobl yn ddiogel rhag terfysgaeth Prevent. Cododd WECTU ymwybyddiaeth o ffurflen atgyfeirio newydd a lansiwyd ym mis Mawrth 2019. Mae'r ffurflen newydd yn galluogi'r holl asiantaethau partner i ddefnyddio'r un ffurflen atgyfeirio. Cliciwch ar y ddolen am ragor o wybodaeth:

[Ffurflen Atgyfeirio Partneriaid Cymru Gyfan](#)

Gweithdrefnau Diogelu Cymru – Newyddion

Caiff Gweithdrefnau Diogelu Cymru eu lansio yn ystod yr Wythnos Diogelu Genedlaethol (11 – 15 Tachwedd 2019). Mae drafft yr adran Cynllunio ac Ymyrraeth wedi ei anfon am ymgynghoriad a thrafodir yr adborth mewn cyfarfod o'r Bwrdd Project ym mis Mai. Mae Gofal Cymdeithasol Cymru wedi cadarnhau y bydd yn datblygu'r deunydd hyfforddi ac yn cynorthwyo'r byrddau diogelu rhanbarthol a fydd yn arwain yr hyfforddi.

Canllaw Ymarferwyr – Egwyddorion Cyfreithiol Sylfaenol

Mae'r canllaw uchod wedi ei ysgrifennu ar gyfer Byrddau Diogelu Rhanbarthol ac ymarferwyr sy'n gweithio yn y rheng flaen a'r nod yw mynd at galon y gyfraith sy'n berthnasol i ymarfer diogelu yng Nghymru. Bydd y canllaw'n rhoi dealltwriaeth sylfaenol i ymarferwyr o rai o feysydd allweddol y gyfraith a allai effeithio ar eu hymarfer a'r bwriad yw rhoi mynediad i ymarferwyr at yr egwyddorion cyfreithiol sylfaenol sy'n sail i'w gweithredoedd a'u penderfyniadau beunyddiol. Mae'r canllaw ar gael ar wefan y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol:

<http://safeguardingboard.wales>

Diwygiadau'r Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol (NRM)

Ddydd Llun 29 Ebrill, caiff yr Un Awdurdod Cymwys (SCA) ei lansio gan y Swyddfa Gartref. Wedi hyn, yr awdurdod hwn fydd yn gyfrifol am holl benderfyniadau'r NRM waeth p'un yw cenedligrwydd neu statws mewnudwr y person. Saif yr uned gwaith achos arbenigol hon yn y Swyddfa Gartref a disodli'r awdurdodau cymwys sydd ar hyn o bryd yn Fisas a Mewnfudo'r DU ac yn yr Asiantaeth Troseddau Genedlaethol.

Bydd hyn yn creu un broses ar gyfer holl atgyfeiriadau at yr NRM er mwyn gwella'r Gwasanaeth i ddioddefwyr, gan leihau'r amserlenni ar gyfer gwneud penderfyniadau a chynyddu pendantrwydd penderfyniadau'r NRM.

Dyma'r manylion cyswllt newydd:

nationalreferralmechanism@homeoffice.gov.uk

020 7035 5689

O 29 Ebrill, dylid anfon atgyfeririadau at yr NRM i:

nationalreferralmechanism@homeoffice.gov.uk

Ymgyrch VAWDASV: Nid cariad ydy hyn: Rheoli ydy hyn

Mae pedwar cam i'r ymgyrch genedlaethol yn 2018-2020 dan yr arwyddair 'Byw Heb Ofn' a dan thema gyffredinol 'Rheoli'. Ym mis Ionawr eleni lanswyd cam cyntaf yr ymgyrch: **Nid cariad ydy hyn: Rheoli ydy hyn**.

Mae ail gam yr ymgyrch wedi cychwyn: **Rheoli a Grwpiau Amrywiol**.

Mae'r ymgyrch yn adeiladu ar thema 'Rheoli' ond mae'n canolbwyntio'r negeseuon ar brofiadau penodol pobl â nodweddion y grwpiau a ddiogelir: pobl hŷn, LHDT, du a grwpiau ethnig lleiafrifol, dynion a chymunedau sipsi, roma a theithwyr.

Mae'n ceisio amlygu mathau penodol o reoli ac ymddygiad difriol y mae goroeswyr o'r grwpiau hyn wedi eu disgrifio. Mae hefyd yn ceisio helpu pobl i adnabod yr ymddygiad hwn fel ymddygiad sy'n anghywir a difriol ac annog pobl sy'n profi neu'n dyst i'r mathau hyn o ymddygiad i geisio cyngor a chymorth gan linell gymorth 24 awr Byw Heb Ofn: 0808 8010 800.

Gwylwch y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip, Jane Hutt AC yn siarad am yr ymgyrch yma:

<https://www.youtube.com/watch?v=0zg5u6ayKkQ&feature=youtu.be>

<https://livefearfree.gov.wales/campaigns/?skip=1&lang=cy>

twitter.com/LiveFearFree

facebook.com/livefearfree

Datganiad Ysgrifenedig: Penodi Cadeirydd ac Aelodau'r Bwrdd Diogelu Annibynol Cenedlaethol (NISB)

Corff cynghorol ydy'r NISB, sy'n gweithio gyda byrddau diogelu Oedolion a byrddau diogelu plant i sicrhau gwelliannau mewn polisïau a gweithdrefnau ac ymarfer diogelu trwy Gymru.

Ym dilyn ymarfer penodi cyhoeddus agored ac yn unol â'r Cod Llywodraethu ar Benodi Cyhoeddus, cadarnhawyd Cadeirydd ac Aelodau'r Bwrdd Cenedlaethol.

Ceir gwybodaeth yn berthnasol i benodiadau swyddogol trwy ddilyn y ddolen hon:

https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-penodi-cadeirydd-ac-aelodau-ir-bwrdd-diogelu-annibynol-cenedlaethol-0?_ga=2.146064055.2008321530.1558618939-154837625.1534242233

Ffoniwch 02922 330880 i gysylltu â'r Uned Fusnes

neu e-bostiwch BDRhCaerdyddarfro@caerdydd.gov.uk